| Dyddiad | Datgan Diddordeb | Presennol | Penderfyniadau a gytunwyd arnynt |
|---|---|---|---|
| 4/7/23 | Derbyniwyd datganiadau gan Euros Roberts, Huw Antur, Alwyn E Jones a'r Cynghorydd Alan Jones Evans ym mater 2531iii, gan eu bod yn aelodau o bwyllgor Menter Gymunedol Llanuwchllyn.<br><br>Datganodd Alwyn E Jones buddiant ym mater 2534 gan ei fod yn aelod o bwyllgor rheoli'r Theatr. | **Y Cynghorwyr** Euros Roberts (Cadeirydd), Huw Antur, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Rhodri Jones, Alwyn M Roberts, Huw P Roberts<br><br>Hefyd yn bresennol: Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)<br><br>**Cyhoedd:** neb yn bresennol. | Cytunwyd i enwebu ar eu gwefan y staff o Dwr Cymru a fu'n gymorth mawr wrth ddarganfod union leoliad y broblem yn y Cyfleusterau Cyhoeddus<br><br>Ariannol: Cytunwyd i dalu<br>**Anfonebau:**<br>Cynnal gwefan y Byrddau Gwybodaeth £200<br>Yswiriant £615.67<br>Gwaith yn y Cyfleusterau Cyhoeddus £318.50<br>CThEF £126.40<br>**Cytundebau:** £303.32; £189; £980.00<br><br>2531iii: Cais am gyfraniad at Fenter Gymunedol Llanuwchllyn: cytunwyd i wneud cyfraniad o £5,000 o'r Cyfrif Cyfalaf gan fod darparu siop, lle bwyta a thafarn, yng nghyd a phrosiectau eraill y Fenter Gymunedol, mor bwysig i fudd a lles trigolion y gymuned.<br><br>Gohebiaeth: Cytunwyd i anfon llythyr o gefnogaeth am Reolwr ar gyfer Theatr Derek Williams<br>Cytunwyd i anfon llythyr o gefnogaeth wrth i Fenter Gymunedol Llanuwchllyn geisio am grantiau.<br><br>**Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:** 5/9/23 yn y Neuadd Bentref. |